

Bwletin Awdurdod S4C

Cyfarfod 302 - 19 Gorffennaf 2007

S4C, Caerdydd

Mae'r bwletin hwn yn adrodd ar gyfarfod yr Awdurdod a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf 2007.

1. Penodiadau

Penodwyd dau aelod newydd i'r Awdurdod sef Bill Davies a Cenwyn Edwards.

2. Adroddiad ar Bolisi Amgylcheddol a Monitro Ch1 a 2 Cynllun Corfforaethol 2007

Awgrymodd ED bod angen edrych yn ofalus ar y Cynllun Corfforaethol a'i ailwampio.

Yn dilyn trafodaeth fanwl ar yr Adroddiad ar Bolisi Amgylcheddol nodwyd bod yna sail gadarn i'r hyn sy'n digwydd ar hyn o bryd ond bod angen i bolisi ffurfiol gael ei baratoi. Cytunwyd i lunio'r polisi, ar sail yr hyn sy'n cael ei wneud yn barod, erbyn diwedd y flwyddyn.

3. Adolygiad o'r Strategaeth Rhaglenni

Nododd ED bod y Pwyllgor Cynnwys wedi edrych ar yr Adolygiad o'r Strategaeth Rhaglenni, a bod disgwyl i adolygiad gael ei wneud erbyn Rhagfyr. Llongyfarchodd y staff ar eu blaenoriaethu oedd erbyn hyn yn dwyn ffrwyth.

4. Ymgynghoriad Plant

Dosbarthwyd adroddiad NH gan gynnwys amserlen o'r camau nesaf i'w cymryd. Diolchwyd i AT a phawb sydd wedi bod ynghlwm â'r Ymgynghoriad, a llongyfarchwyd TH ar ei berfformiad yn y cyfarfodydd i rhanddalwyr.

Penderfynwyd y dylid anfon dogfennau'r Ymgynghoriad at yr Awdurdod cyn iddynt fynd at DCMS. Penderfynwyd taw'r flaenoriaeth yw i sefydlu sianel i blant a phobl ifanc, ond bod yn rhaid ystyried sut i ddarparu gweithgareddau'r Cynulliad yn ogystal. Gobeithir gwneud cyhoeddiad o fwriad ynglŷn â'r sianel newydd adeg pen-blwydd S4C yn 25.

5. Adroddiad y Cadeirydd

Lansiwyd yr Adroddiad Blynyddol ar 10 Gorffennaf, a llongyfarchodd JWW bawb fu â rhan yn ei lunio.

Llongyfarchwyd IJ ei haraith yng nghynhadledd Ofcom.

Mynychodd Eisteddfod Llangollen a nododd werthfawrogiad nifer o bobl y darllediadau o'r wyl.

6. Adroddiad ar gynrychiolaeth y pleidiau gwleidyddol ar raglenni Cymraeg S4C yn ystod cyfnod Ymgyrchu yr Etholiad Cynulliad Cenedlaethol

Nodwyd bod yr Adroddiad yn un manwl a diddorol, a llongyfarchwyd y staff a'r cynhyrchwyr ar y rhaglenni.

7. Adroddiad y Prif Weithredwr

Cyflwynodd IJ ei hadroddiad ysgrifenedig. Adroddodd ar Gynhadledd Ofcom a nododd ei bod yn gysur gweld sut oedd y byd darlledu yn symud a themlo bod S4C yn y man iawn ac yn symud ymlaen.

Nodwyd bod cais ynglŷn â gwerthiant SDN wedi cael ei gyflwyno.

Cadarnhaodd IJ ei bod yn hapus iawn â chyfeiriad Adroddiad Blynyddol y BBC o ran S4C a'r bartneriaeth strategol.

Adroddwyd fod trafodaethau ar y gweill ynglŷn â chytundeb FreeSat. Cafodd ITV Local ei lansio yng Nghymru yr wythnos cynt, a bwriedir drafftio cytundeb i ITV erbyn yr wythnos ganlynol. Nodwyd bod trafodaethau wedi digwydd gyda CITV.

8. Materion Eraill

Yn ogystal, trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth
- Cofnodion y Pwyllgor Cynnwys
- Adroddiad Chwarterol Cyllid
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad y Cyfarwyddwr Comisiynu
- Rhaglen Waith yr Awdurdod 2007
- Tabl Digwyddiadau am 2007